# RHAGLEN ARFOR

# Grantiau i Gefnogi Defnydd yr Iaith Gymraeg mewn Busnes ar Ynys Môn

## Canllawiau

*Diweddarwyd 22/7/24*

# Canllawiau Grantiau ARFOR Ynys Môn

## Cefndir

Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn yw'r siroedd gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ond mae'r nifer wedi bod yn gostwng ers amser maith. Mae cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn nod allweddol i Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Miliwn o Siaradwyr Cymraeg 2050. Mae Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn hefyd yn siroedd sydd gyda heriau economaidd gan eu bod yn siroedd gwledig gyda chyflogau isel.

Clustnodwyd £11 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod 2022/2023 i -2024/25 i ganiatáu'r pedair sir i gydweithio a chreu ymyraethau i sicrhau ffyniant economi Gorllewin Cymru ac i arbrofi a threialu cynlluniau i'r perwyl.

Mae ARFOR felly yn rhaglen ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn sy'n edrych i ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a, thrwy hynny, cynnal yr iaith.

O dan Raglen ARFOR mae yna nifer o gronfeydd sy'n cynnig grantiau ariannol i fusnesau ac unigolion megis Cronfa Her ARFOR a'r Gronfa Gefnogaeth Cymunedau Mentrus. **Mae'r grantiau Iaith ar Ynys Môn wedi deillio o'r Gronfa Cymunedau Mentrus.**

Am fwy o wybodaeth am yr uchod a rhaglen ARFOR gweler: www.rhaglenarfor.cymru

## Amcanion y grantiau

Dylai ceisiadau sy'n ymgeisio am gymorth drwy gronfa Arfor allu cyfrannu tuag un neu fwy o'r amcanion isod:

- cefnogi twf economaidd mewn ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn cael ei siarad
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd mewn busnes

## Pwy sy'n gymwys?

Bydd y gronfa uchod yn agored i unrhyw fusnes ariannol hyfyw sydd eisoes yn neu yn bwriadu masnachu; a sydd yn bodloni y diffiniad o Fenter Bach i Ganolig (llai na 250 o staff a throsiant blynyddol llai na £50 miliwn). Gall gynnwys:

- Cwmni cyfyngedig
- Cwmni Budd Cymunedol
- Unig Fasnachwr
- Braich masnachu Elusen Cofrestredig

**Beth sy'n gymwys?**

Ni ellir cyfrannu tuag at gostau adeiladu na prynu eiddo / tir na gweithgareddau statudol. Gweler isod restr o enghreifftiau o eitemau a gwasanaethau all fod yn gymwys:

- Hyfforddiant ieithyddol
- Cyflwyno, addasu neu wella y defnydd o'r Gymraeg yn y busnes e.e. deunyddiau gweledol, clywedol a/neu'r ddau.

Mae'n amod gan Lywodraeth Cymru nad ydi grant Arfor yn cael ei roi ble mae grant addas arall eisoes ar gael.

Uchafswm grant o £2,000 ar gael i bob ymgeisydd ac angen o leiaf 25% o gyfraniad arian cyfatebol.

**Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau?**

Bydd Panel Grantiau yn cyfarfod ar ddiwedd y ffenestr agored er mwyn asesu ceisiadau'r gronfa. Bydd y panel yn  gynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn a Menter Môn. Mae'n bosib y bydd y panel yn gofyn am fwy o wybodaeth neu eglurhad ar rai materion cyn gallu penderfynu.

**Os yn llwyddiannus, sut fydd cael yr arian?**

Os yn llwyddiannus, bydd llythyr cynnig yn dod i'ch sylw sy'n egluro'n llawn sut i hawlio'r arian. **Peidiwch ag archebu na thalu am unrhyw beth cyn i chi dderbyn a dychwelyd y llythyr cynnig**. Dim ond ar ôl i chi brynu a thalu y bydd modd hawlio grant.  Cofiwch sicrhau fod eich llif arian yn ddigonol i dalu, a'ch bod yn cyflwyno'ch hawliad (gyda thystiolaeth o'r gwariant - copi o'r anfoneb a datganiad banc yn dangos y taliad), er mwyn i'ch hawliad gael ei brosesu ac i arian ARFOR gyrraedd eich banc.

**Ni ellir rhoi grant os ydych wedi talu am unrhyw beth gydag arian parod**. Os am ddefnyddio cerdyn credyd bydd angen copi o ddatganiad y cerdyn yn dangos y taliad.

**A fydda i'n cael fy monitro?**

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn cael eich monitro'n agos er mwyn:

- sicrhau bod y grant yn cael ei wario ar yr hyn a gymeradwywyd
- sicrhau bod y cynllun yn digwydd / wedi digwydd yn unol a hyn
- sicrhau bod eitemau a gefnogwyd efo grant yn parhau mewn lle / defnydd
- sicrhau fod grantiau Arfor yn cyflawni eu pwrpas
- casglu gwybodaeth am y gweithgareddau ac allbynnau o'r grant

Nodwch - gallai hyn fod yn ymweliad gan gynrychiolydd o naill ai Gyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru neu Menter Môn ar fyr rybudd, i archwilio eich defnydd o'r cyllid Arfor ar unrhyw adeg yn ystod eich prosiect neu ar ôl ei chwblhau.

Os yw Menter Môn, Cyngor Sir Ynys Môn neu Lywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r arian wedi ei wario i'r pwrpas y cytunwyd arno, neu fod y prosiect yn dra gwahanol i'r hyn a gynigiwyd, mae'n bosibl y bydd y grant, neu ran perthnasol ohono, yn cael ei adennill.

Byddwch yn cael eich monitro am hyd at 2 mlynedd ar ôl i'r grant gael ei dalu i chi.

**Oes angen i mi gael prisiau cystadleuol am bob eitem?**

Gofynnir i chi ddilyn y canllawiau i wahodd dyfynbrisiau wrth geisio prisiau am eitemau/gwasanaethau unigol o fewn eich cynllun a chynnwys yr holl dystiolaeth gyda'ch cais.

| Gofynion o ran dyfynbris |
|---|
| Un dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer pob eitem |

Gofynnir i chi nodi manylion pob eitem a fydd yn cael ei brynu gyda chefnogaeth y grant.

**Amodau Eraill ar gyfer derbyn Grantiau Ieithyddol Arfor**

- Rhaid i bob cais fod yn barod i ymrwymo eu hunain i gyfle cyfartal o safbwynt iaith, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, credo, oed neu, cyhyd ag y bo'n ymarferol, anabledd.

- Ni ellir talu / cyfrannu tuag at waith sydd eisoes wedi dechrau nac offer sydd eisoes wedi ei brynu.

- Ni fydd cymorth yn cael ei ddarparu i gynnal busnes fel ag y mae, adnewyddu offer presennol, neu cyflawni newid er mwyn gorfod cydymffurfio gyda rheolau neu gyfraith.

- Ni ellir defnyddio'r grant i ariannu gweithgaredd sydd yn ddyletswydd statudol.

- Bydd raid i chi ddatgan nad ydych wedi derbyn mwy na £315,000 o Cymorth Gwladwriaeth yr UE de Minimus/SAFA/SPEI/ICA dros gyfnod o dair blynedd.

- Rhaid i bob busnes sy'n derbyn grant fod yn economaidd ac ariannol hyfyw. Mae Cyngor Sir Ynys Môn, neu Menter Môn (fel ei asiant) a yn cadw'r hawl i ymchwilio i statws credyd trwy Asiantaeth Archwilio Credyd unrhyw un sy'n derbyn grant. Gallai'r cyfarwyddyd hwn gael ei roi o ganlyniad i ymholiad penodol, neu ar sail hapwiriadau.

- Bydd yn rhaid i chi greu a chadw rhestr eiddo o’r holl nwyddau a brynwyd â chymorth grant, ynghyd â chofnod o bob rhif cyfresol neu ddull adnabod arall ble yn berthnasol. Rhaid cyflwyno copi o hwn gyda eich hawliad grant.

- Rhaid i unrhyw grantiau a ddyfarnwyd gael eu gwario a’u hawlio’n llawn cyn diwedd mis Rhagfyr 2024.

- Mae pob grant yn amodol ar gwblhau unrhyw weithdrefnau statudol (ee caniatâd cynllunio, rheoliadau bwyd ac amgylcheddol, anghenion trwyddedu), a thystiolaeth bod pob hawl a chaniatâd perthnasol gennych ee hawl gan berchennog yr eiddo.

- Ni ellir cefnogi cynlluniau sydd yn groes i amodau grant Arfor Llywodraeth Cymru (copi ar gael), polisïau a rheolau Llywodraeth Cymru, neu bolisïau a rheolau Cyngor Sir Ynys Mon.

- Bydd raid i dderbynwyr y grant gydnabod y cymorth ariannol trwy Arfor mewn cyhoeddusrwydd perthnasol.

- Bydd disgwyl i’r holl ymgeiswyr llwyddiannus fod yn barod i ddangos tystiolaeth o unrhyw allbynnau / deilliannau sy’n berthnasol i’r gronfa.

- Bydd disgwyl i chi gwblhau a dychwelyd ffurflen gwerthuso ar gyfer y grant Arfor rydych wedi ei dderbyn a bydd swyddog yn cysylltu a derbynwyr am hyn.